



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cynllun Iaith Gymraeg

Cafodd y Cynllun hwn ei baratoi yn unol â gofynion Deddf yr Iaith
Gymraeg 1993 a chafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg
ar 15 Gorffennaf 2010



**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Cynnwys	Tudalen
A. Rhagymadrodd	2
B. Y camau sy'n cael eu cymryd gan y Comisiwn i gydymffurfio â chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg	4
1. Cynllunio gwasanaethau a'u cyflwyno	4
2. Cyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng y Cymraeg	5
3. Cyfathrebu â'r cyhoedd	6
4. Wyneb cyhoeddus y Comisiwn	9
5. Gweithredu a monitro	14
6. Awgrymiadau ar gyfer gwella	21
7. Cwynion am y Cynllun Iaith Gymraeg	21
8. Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch perfformiad	22
C. Manylion cysylltu'r person i gysylltu ag ef ynglŷn â'r Cynllun hwn	23
D. Amserlen i roir'r cynllun ar waith a camau i'r timau	24

A. Rhagymadrodd

Rhagymadrodd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (y Comisiwn) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth i fusnes cyhoeddus gael ei gynnal yng Nghymru.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Comisiwn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau statudol ynghylch paratoi cynlluniau iaith Gymraeg.

Ystyr 'cyhoedd' yw'r personau hynny y mae'r Comisiwn yn ymdrin â nhw wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r term 'cyhoedd' yn cynnwys unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei grynswth, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term hefyd yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau.

Adran gyflwyno sy'n disgrifio'r Comisiwn

Cafodd swydd y Comisiynydd ei chreu o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn eiriolydd annibynnol dros hawliau pobl hŷn yng Nghymru. Cafodd Ruth Marks ei phenodi'n Gomisiynydd cyntaf ar 21 Ebrill 2008. Ei rôl hi yw hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn, hybu diwedd ar wahaniaethu ar sail oed, hybu arferion da wrth ymdrin â phobl hŷn ac adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn.

Yng Nghaerdydd y mae mangre'r Comisiwn. Mae gan y swyddfa gyfanswm o ryw 25 o staff. Mae rolau'r staff yn

cynnwys rheoli, polisi ac ymchwil, trafod ymholiadau, cyfranogi a chyfathrebu, a swyddogaethau gweinyddol. Arfer y Comisiwn yw sicrhau bod ei wasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd, megis ei wefan a'i wasanaeth gwybodaeth ac ymholiadau, ar gael yn Gymraeg i aelodau'r cyhoedd, a bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg yn gydradd o ran eu hansawdd ac yn cael eu darparu o fewn yr un raddfa amser. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn cyflogi nifer o staff dwyieithog i ategu hyn, a hynny ar draws ei ystod o wasanaethau.

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a gaiff eu gwneud gan y Comisiwn â thrydydd partïon yn cyd-fynd â'r polisi hwn.

Nod y Cynllun hwn yw rhoi ar waith yr egwyddor bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes y Comisiwn. Diben y Cynllun yw sicrhau bod y Comisiwn yn darparu ystod lawn o wasanaethau o safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gellir cysylltu â Chydlynnydd y Cynllun Iaith Gymraeg ynghylch unrhyw ymholiadau am y Cynllun hwn, yn y cyfeiriad sydd wedi'i ddarparu yn Rhan C.

B. Y camau sy'n cael eu cymryd gan y Comisiwn i gydymffurfio â chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg

1. Cynllunio gwasanaethau a'u cyflwyno

Pobl hŷn yng Nghymru sy'n pennu blaenoriaethau'r Comisiwn. Bydd y Cynllun hwn yn galluogi pobl hŷn yng Nghymru i ymdrin â'r Comisiwn yn eu dewis iaith a byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r materion Cymraeg a fydd yn cael eu codi gan bobl hŷn wrth gynllunio'n gwasanaethau a'u cyflwyno.

Bydd yn arfer gan y Comisiwn asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisiau a mentrau newydd wrth eu llunio. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau bod polisiau a mentrau newydd yn hybu ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo modd a'u bod yn rhoi egwyddor cydraddoldeb ar waith. Bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn yr ymarfer o swyddogaethau'r comisiwn, er enghraifft wrth hybu ymwybyddiaeth o ddiddordebau pobl hŷn yng Nghymru. Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod polisiau a mentrau newydd yn gyson â'r Cynllun, ac na fyddan nhw'n ei danseilio.

Bydd y Comisiwn yn mabwysiadu gweithdrefnau i sicrhau bod goblygiadau ar gyfer y Gymraeg a gofynion y Cynllun hwn yn cael eu hystyried a'u cynnwys ar adeg gynnar yn natblygiad polisiau a mentrau.

Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r Cynllun hwn ac o gyfrifoldebau'r Comisiwn o dan y Cynllun. Caiff y mesurau yn y Cynllun hwn eu cymhwyso at bolisiau a mentrau newydd wrth i'r rheiny gael eu rhoi ar waith.

Bydd y Comisiwn yn ymgynghori â'r Bwrdd ymlaen llaw ynghylch cynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun hwn, neu a fydd yn effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill. Fydd y Cynllun hwn ddim yn cael ei newid heb gytundeb y Bwrdd.

2. Cyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i ddarparu ei wasanaethau yn yr iaith y bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn ei dewis. Mae'r swyddfa wedi'i threfnu fel bod staff Cymraeg eu hiaith ar gael i ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy recriwtio staff Cymraeg, yn enwedig staff y dderbynfa a staff gwybodaeth ac ymholiadau. Mae gwaith i gyflwyno gwasanaethau'n cael ei ategu drwy ddefnyddio cyfieithwyr proffesiynol allanol yn ôl yr angen.

Mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu, wedi'u nodi mewn canllawiau i staff y dderbynfa a thrwy ddefnyddio'r System Rheoli Busnes, i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn yr iaith y bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn ei dewis.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i gyflwyno gwasanaeth a fydd yr un mor uchel ei safon yn y ddwy iaith. Bydd y Comisiwn yn cynhyrchu canllawiau ynghylch gwasanaethau i gwsmeriaid a fydd yn nodi safonau gwasanaeth, megis graddfeydd amser ar gyfer ymateb i ohebiaeth, a bydd yn gymwys yn yr un modd i wasanaethau Cymraeg a Saesneg.

3. Cyfathrebu â'r cyhoedd

a) Ysgrifenedig

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu aton ni yn Gymraeg, arfer y Comisiwn fydd sicrhau mai ateb Cymraeg fydd yn cael ei anfon, os bydd angen ateb, a hynny o fewn yr un raddfa amser ag ar gyfer ateb llythyrau Saesneg.

Wrth i ninnau ddechrau gohebiaeth, Cymraeg fydd yr ohebiaeth honno os byddwn yn gwybod y byddai'n well gan y derbynydd ohebu yn Gymraeg. Os bydd rhywun yn cyflwyno ymholiad Cymraeg inni, yna byddwn yn cynnal unrhyw ymchwiliad a fydd yn deillio ohono yn Gymraeg cyn belled ag y bo'n ymarferol. I hwyluso ateb prydlon i ymholiadau, byddwn yn gofyn, pryd bynnag y bo modd, i unrhyw sefydliadau y byddwn yn gohebu â nhw ohebu yn newis iaith yr ymholwr. Bydd y cais hwn yn cael ei wneud er mwyn osgoi gohirio drwy orfod comisiynu llawer o waith cyfieithu.

Pryd bynnag yr anfonwn ohebiaeth safonol neu gylchlythyrau at sawl derbynydd yng Nghymru, bydd y rheiny'n ddwyieithog oni bai bod dewis iaith pob derbynydd yn hysbys.

Dwyieithog fydd papurau amgaeedig a fydd yn cael eu hanfon gyda llythyrau dwyieithog, a Chymraeg neu ddwyieithog fydd papurau amgaeedig a fydd yn cael eu hanfon gyda llythyrau Cymraeg, pryd bynnag y bo modd.

Bydd y cyfan uchod yn gymwys i ohebiaeth e-bost yn ogystal ag i ohebiaeth ar bapur.

Bydd pob gohebiaeth Gymraeg ar ffurf copi caled yn cael ei lofnodi, a bydd unrhyw ohebiaeth e-bost Gymraeg yn cynnwys llofnod electronig Gymraeg (neu ddwyieithog).

Bydd hyfforddiant ymsefydlu'r staff yn cynnwys cyfarwyddyd ar ohebu â'r cyhoedd yn unol â'r ymrwymadau hyn.

Mae'r Comisiwn yn cadw cofnod o'r rhai sy'n dymuno ymdrin â'r Comisiwn yn Gymraeg yn ei System Rheoli Busnes electronig.

b) Ffôn

Byddwn yn sicrhau y caiff aelodau'r cyhoedd siarad Gymraeg neu Saesneg wrth iddyn nhw gysylltu â'r Comisiwn dros y ffôn.

Bydd staff y dderbynfa'n ateb y ffôn â chyfarchiad dwyieithog a dwyieithog fydd pob neges ar beiriant ateb ffôn. Os yw'r sawl sy'n galw am siarad Gymraeg, fe gaiff ei gysylltu â rhywun sy'n siarad Gymraeg ac sy'n gymwys i ymdrin â'r ymholiad.

Mae'r Comisiwn yn cyflogi derbynnydd a chynorthwydd gweinyddol Gymraeg er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â galwadau yn ddwyieithog. Os bydd rhywun sy'n galw llinell uniongyrchol am siarad Gymraeg, ond nad yw'r sawl sy'n cymryd yr alwad yn gallu gwneud hynny, caiff y galwr ei drosglwyddo i rywun sy'n siarad Gymraeg ac sydd â chymwysterau addas. Byddwn yn cadw cofnod canolog o'r staff sy'n medru'r Gymraeg, er mwyn i alwadau gael eu trosglwyddo iddyn nhw pan fydd angen gwneud hynny.

Os nad oes rhywun sy'n siarad Gymraeg ac sydd â chymwysterau addas ar gael, caiff y galwr ddewis, sef naill ai parhau â'r alwad yn Saesneg, cael rhywun sy'n siarad

Cymraeg i'w ffonio'n ôl, neu gyflwyno'i ymholiad yn Gymraeg mewn llythyr neu neges e-bost.

Bydd canllawiau i staff y dderbynfa ynghylch ymdrin â galwadau Cymraeg yn cael eu darparu yn Llawlyfr Derbynfa'r Comisiwn.

c) Yn bersonol

Mewn cyfarfodydd cyhoeddus, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i ddarparu cyfieithiad ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg, oni bai ein bod wedi cael gwybod bod pawb yn y cyfarfod yn debyg o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog ac yn nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael neu yn gwahodd y cyhoedd i roi gwybod ymlaen llaw i'r Comisiwn ym mha iaith yr hoffen nhw siarad.

Bydd pobl a fydd yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn cael gwybod pan fydd gwasanaeth cyfieithu ar gael, a bydd cyfraniadau Cymraeg yn cael eu hannog.

Bydd unrhyw bapurau a gwybodaeth ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu darparu yn y ddwy iaith, ac felly hefyd adroddiadau neu bapurau a fydd yn cael eu cynhyrchu ar ôl y cyfarfodydd.

Wrth ddethol staff i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus, ein harfer fydd sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg a chanddyn nhw gymwysterau addas yn bresennol.

Trefnir bod canllawiau ar gael ynghylch trefnu cyfarfodydd cyhoeddus dwyieithog a chyfeirir at ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch cynnal cyfarfodydd cyhoeddus dwyieithog.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb, er enghraifft cyfarfodydd a chyfweliadau, yn Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddethol staff ddwyieithog a chanddyn nhw gymwysterau addas i fod yn bresennol mewn digwyddiadau.

4. Wyneb cyhoeddus y Comisiwn

a) Delwedd gorfforaethol

Mae gan y Comisiwn ddelwedd gorfforaethol ddwyieithog. Mae hyn yn golygu bod yr holl benawdau swyddogol ar lythrau, taflenni cyfarch, taflenni cyflwyno ffacs, penawdau hysbysiadau i'r wasg a chardiau busnes sy'n cael eu defnyddio gan y Comisiwn yn hollol ddwyieithog; bod y logo yn cynnwys enw'r Comisiwn yn Gymraeg a Saesneg, a bod yr arwyddion mewn manau cyhoeddus yn swyddfeydd y Comisiwn, yn ogystal ag arwyddion allanol y swyddfa, yn ddwyieithog.

b) Arwyddion

Bydd y Comisiwn yn darparu arwyddion gwybodaeth cwbl ddwyieithog o fewn cwrtill ei eiddo. Bydd pob arwydd arall y mae'r Comisiwn yn gyfrifol amdano'n gwbl ddwyieithog hefyd. Bydd maint, ansawdd, darllenadwyedd ac amlygrwydd y testun ar yr arwyddion yr un fath yn y ddwy iaith.

c) Deunyddiau printiedig

Fel mater o bolisi, arfer y Comisiwn fydd cyhoeddi deunydd yn Gymraeg a Saesneg, a'r ddwy iaith mewn un ddogfen.

Gall fersiynau Cymraeg a Saesneg gael eu cyhoeddi ar wahân o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft oherwydd hyd y dogfennau, cost, a gofynion hysbys y gynulleidfa arfaethedig.

Pan gaiff dogfennau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar wahân, bydd y ddwy ddogfen yn gyfartal o ran maint ac ansawdd, trefnir eu bod ar gael yr un pryd, a byddant yn un mor hygyrch â'i gilydd. Bydd y fersiwn yn y naill iaith a'r llall yn datgan yn glir fod y fersiwn arall ar gael.

Os nad ydyn nhw ar gael am ddim, fydd pris dogfen Gymraeg ddim yn fwy na phris dogfen Saesneg, a fydd pris dogfen ddwyieithog ddim yn fwy na phris dogfen uniaith.

Bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi yr un pryd yn y ddwy iaith, a hynny mewn un cyhoeddiad dwyieithog fel rheol. Yn achos briffiadau manylach ynghylch materion nad oes bwriad eu cyhoeddi'n gyffredinol, os dogfen uniaith Saesneg sydd ar gael, bydd cyfieithiad yn cael ei drefnu os gofynnir am fersiwn Cymraeg.

Bydd yr uchod yn gymwys hefyd i ddeunydd y trefnir ei fod ar gael yn electronig neu ar ein gwefan, neu ar CD rom, neu fel arall.

ch) Ffurflenni a holiaduron

Bydd yr holl ffurflenni a'r holl ddeunyddiau esboniadol ar gael yn ddwyieithog. Os caiff y cwestiynau Cymraeg a Saesneg eu hargraffu ar wahân, oherwydd anawsterau wrth eu cyflwyno, yna bydd y ddau fersiwn ar gael yn gydradd â'i gilydd ac yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd. Bydd y fersiwn yn y naill iaith a'r llall yn datgan yn glir fod y fersiwn arall ar gael.

Bydd unrhyw adolygiad, arolwg neu astudiaeth arall gan y Comisiwn, neu a gynhelir ar ran y Comisiwn, ac sy'n cynnwys ffurflenni neu holiaduron ysgrifenedig, yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

d) Hysbysiadau i'r cyfryngau

Bydd pob hysbysiad i'r cyfryngau yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg pan fydd y dyddiadau cau'n caniatáu hynny neu yn unol â dewis iaith y sefydliad yn y cyfryngau neu'r cyhoeddiad sy'n eu derbyn.

Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod cysylltwr Cymraeg ei iaith ar gael ym mhob cynhadledd i'r wasg a phob cynhadledd newyddion, ac i roi cyfweiliadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

dd) Gwefan

Bydd gwefan y Comisiwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a bydd modd ei chyrru drwy borth dwyieithog. Bydd pob tudalen ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a bydd cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg y wefan yr un fath yn union o ran maint, ansawdd a hygyrchedd.

Pryd bynnag y byddwn yn trefnu bod dogfennau a chyhoeddiadau Saesneg ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan, fe fyddan nhw ar gael hefyd yn Gymraeg, a chaiff y ddau fersiwn o ddogfen neu gyhoeddiad eu llwytho i fyny yr un pryd.

Wrth ddylunio neu ail-ddylunio'n gwefan, byddwn yn cymryd i ystyriaeth Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Ddwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

e) Deunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo

Bydd gweithgareddau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo'r Comisiwn yn cael eu cynnal yn ddwyieithog, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal.

Bydd arddangosfeydd yn gwbl ddwyieithog. Bydd arddangosfeydd a stondinau arddangos cyhoeddus a fydd yn cael eu paratoi gan y Comisiwn bob amser yn cynnwys deunydd dwyieithog.

Bydd holl faneri a deunyddiau arddangos y Comisiwn naill ai'n ddwyieithog neu ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gyda chyfarwyddyd y dylai'r ddwy faner gael eu defnyddio gyda'i gilydd.

f) Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus, a hysbysebion recriwtio staff

Bydd hysbysiadau cyhoeddus yn y wasg yng Nghymru yn y ddwy iaith, gan ddangos y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd a hynny â'r un amlygrwydd.

Dwyieithog fydd pob hysbyseb recriwtio am staff i weithio yn y Comisiwn. Bydd hysbysebion recriwtio Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd. Bydd disgrifiadau swyddi'n nodi a fernir bod medrau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Bydd gofynion ynglŷn â medrau Cymraeg mewn disgrifiadau swyddi yn cael eu mynegi yn y geiriad safonol canlynol: 'Mae medrau Cymraeg yn hanfodol/yn ddymunol ar gyfer y swydd hon'.

Yn y cyfryngau Saesneg, wrth hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, gall swyddi gael eu hysbysebu'n uniaith Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

ff) Partneriaethau

Mae'r Comisiwn yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol, ac asiantaethau

eraill, ar lawer lefel. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn sicrhau'r canlynol:

- os y Comisiwn yw'r arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn cyd-fynd â'r Cynllun Iaith Gymraeg;
- os yw'r Comisiwn yn ymwneud â phartneriaeth sy'n cael ei harwain gan asiantaeth arall, byddwn yn sicrhau bod cyfraniad y Comisiwn yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg;
- os yw'r Comisiwn yn gweithredu fel rhan o gonsortiw, bydd yn annog y consortiw i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiw, bydd y Comisiwn yn gweithredu yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg;
- os bydd y Comisiwn yn ymuno â phartneriaeth neu gonsortiw neu'n ffurfio un, bydd yn holi'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith Gymraeg, eu polisiâu iaith, neu drwy ba fodd y byddan nhw'n gweithredu'n ddwyieithog. Mewn unrhyw bartneriaeth, bydd y Comisiwn yn cynnig cyngor a chefnogaeth i'r partneriaid eraill.

5. Gweithredu a monitro

a) Recriwtio

Bydd gan y Comisiwn ddigon o siaradwyr Cymraeg a chanddyn nhw fedrau priodol i sicrhau bod modd darparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae gan y Comisiwn bump o staff sy'n wynebu'r cyhoedd ac sy'n medru'r Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau y gall y Comisiwn gynnig gwasanaethau yn unol â'r Cynllun hwn ar hyn o bryd.

Mae medrau cyfathrebu yn elfen allweddol yn fframwaith cymhwyseddau'r Comisiwn. Wrth ddrafftio manyleb person, bydd y rheolwyr yn ystyried i ba raddau y byddai'n hanfodol neu'n ddymunol i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfathrebu drwy'r Gymraeg.

Gellir barnu bod rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol pan fydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfathrebu'n uniongyrchol â phobl hŷn (neu randdeiliaid eraill) yn eu dewis iaith.

Gellir barnu bod rhuglder yn y Gymraeg yn ddymunol pan fydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus brosesu gohebiaeth oddi wrth bobl hŷn (neu randdeiliaid eraill) yn eu dewis iaith.

Yn gyffredinol, bernir bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn fantais mewn ymgeisydd er mwyn adeiladu gallu yn y Comisiwn.

Os yw cymhwysedd yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd, bydd y ffaith honno a'r lefelau rhuglder a llythrennedd angenrheidiol yn cael eu pennu wrth recriwtio i'r swydd honno.

Pan fydd penodiad yn cael ei wneud a phan fydd angen i lefel rhuglder neu llythrennedd y person sydd wedi'i benodi gael ei

datblygu ymhellach, bydd hyfforddant a chymorth priodol yn cael eu cynnig.

Pan nad oes modd dod o hyd i ymgeisydd Cymraeg addas ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, byddwn yn ystyried ailstrwythuro'r gwasanaeth, penodi dros dro, neu ail-hysbysebu'r swydd. Gallwn wneud trefniadau dros dro ar gyfer darparu'r gwasanaeth Cymraeg, er enghraifft drwy ddefnyddio staff Cymraeg eu hiaith o rannau eraill o'r Comisiwn i ddarparu rhan o'r gwasanaeth.

Os oes angen penodi rhywun di-Gymraeg i swydd lle bernir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, un o'r amodau cyflogaeth fydd bod rhaid iddo ddysgu Cymraeg i'r lefel angenrheidiol o fewn cyfnod rhesymol, gyda chymorth y Comisiwn. Caiff yr amod hwn ei fynegi i'r ymgeiswyr adeg y gwaith recriwtio.

Bydd y Comisiwn yn annog rhai sy'n siarad Cymraeg i wneud ceisiadau a hynny drwy sicrhau bod yr holl hysbysebion recriwtio yn ymddangos yn ddwyieithog, ystyried gosod hysbysebion recriwtio ychwanegol mewn papurau newydd neu gylchgronau Cymraeg hyd yn oed pan nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn angenrheidiol. Bydd datganiad ein bod yn annog rhai sy'n siarad Cymraeg i wneud cais yn cael ei gynnwys yn yr wybodaeth yn y pecyn recriwtio.

Bydd y Comisiwn yn cynhyrchu canllawiau i'r staff adnoddau dynol ynghylch recriwtio siaradwyr Cymraeg.

Bydd pecynnau gwybodaeth yn cael eu darparu yn y ddwy iaith ar gyfer pob swydd wag yn y Comisiwn.

b) Archwiliad o fedrau Cymraeg y staff cyfredol

Bydd y Comisiwn yn cynnal archwiliadau i ganfod nifer, lefel gallu a lleoliad staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gan gynnwys staff sy'n dysgu'r iaith) gan fonitro'r rheiny'n barhaus. Y staff Adnoddau Dynol fydd yn gyfrifol am gynnal archwiliadau o fedrau Cymraeg.

Bydd y rolau hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol yn cael eu nodi. Gall y gofyniad hwn gael ei ddiffinio fel cydran mewn llyf gwaith neu dîm, neu gall gael ei gyplysu â swydd benodol. Bydd unrhyw ostyngiad yn nifer y staff dwyieithog mewn swyddi sy'n gysylltiedig yn agos â'r Cynllun hwn yn cael ei nodi, a bydd y Comisiwn yn cywiro unrhyw ddiffygion wrth i'r cyfle godi, er enghraifft drwy recriwtio a thrwy ddarparu hyfforddiant i'r staff ddysgu Cymraeg. Ein harfer ni bob amser fydd sicrhau bod ein derbynfa a'n prif switsfwrdd yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg.

c) Hyfforddiant Cymraeg

Mae'r Comisiwn yn annog ac yn cefnogi staff sydd am ddysgu Cymraeg, ac mae'n cefnogi staff Cymraeg eu hiaith sydd am wella'u medrau iaith. Bydd y Comisiwn yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyfforddiant galwedigaethol yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen er mwyn hwyluso gweithredu'r Cynllun hwn.

Caiff aelodau'r staff eu hannog i ddilyn cyrsiau priodol a anelir at wella'u Cymraeg. Os bernir mai dyna'r ffordd orau i ddefnyddio adnoddau, bydd cyrsiau'n cael eu darparu yn y gweithle drwy ddefnyddio galluoedd Cymraeg mewnol.

Bydd y Comisiwn hefyd yn ymchwilio i gyrsiau hyfforddi sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr addysg lleol. Mewn achosion priodol, megis pan fydd angen am hyfforddiant wedi'i weld,

byddwn naill ai'n ariannu hyfforddiant neu'n cyfrannu at gost hyfforddiant a gallwn ganiatáu i staff ddilyn cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Bydd hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gymraeg yn cael ei roi i'r holl staff fel rhan o'u hyfforddiant ymsefydlu.

Bydd aelodau staff Cymraeg eu hiaith yn annog staff y gwyddys eu bod wrthi'n dysgu'r iaith i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle.

ch) Trefniadau gweinyddol

Bydd copïau o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu rhoi i holl staff y Comisiwn pan gaiff ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori cyhoeddus, ynghyd â nodiadau cyfarwyddyd i esbonio'i bwysigrwydd a'i berthnasedd.

Mae'r ymrwymïadau a'r trefniadau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun hwn wedi'u cymeradwyo gan y Comisiynydd ac wedi ennyn ei chefnogaeth lawn.

Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnal i roi gwybod i'r staff am eu cyfrifoldebau yn y Cynllun, a'r cyd-destun ehangach o ran cyflwyno'n gwasanaethau, cyfle cyfartal, a materion diwylliannol.

Bydd pob aelod newydd o'r staff yn cael canllawiau manwl ynghylch y Cynllun a hynny fel rhan o'u rhaglen o hyfforddiant ymsefydlu.

Bydd y Comisiwn yn nodi gwasanaethau cyfieithu proffesiynol effeithiol a bydd rhestr o gyfieithwyr o'r fath ar gael ar y Fewnrwyd er mwyn sicrhau bod modd i ddeunyddiau ysgrifenedig gael eu cyfieithu'n gyflym ac yn gywir. Mae rhestr

o aelodau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar gael yn www.cyfieithwycymru.org.uk, a rhoddir sylw i'r rhestr honno.

Fydd dim disgwyl i aelodau staff Cymraeg y Comisiwn weithredu fel cyfieithwyr mewnol. Os yw'r staff wedi arfer â gweithio'n ddwyieithog, gellir defnyddio disgrisiwn unigol ar gyfer darnau byr o waith cyfieithu, yn enwedig felly wrth gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod Cysgliad yn cael ei osod ar gyfrifiaduron y staff a fydd yn gweithio drwy'r Gymraeg, a'r holl staff gweinyddol y gall fod galw iddyn nhw weithio ar ddogfennau dwyieithog, a bydd copïau o Eiriadur yr Academi ac o'r Geiriadur Mawr ar gael yn y swyddfa.

Mae'n bosibl y bydd rhyngwyneb Cymraeg cymwysiadau Microsoft Office yn cael ei gynnig i'r staff.

Bydd unrhyw fath o gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru nad yw wedi'i drafod yn unswydd gan y Cynllun hwn yn cael ei wneud mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u crisialu yn y Cynllun.

Bydd cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r Cynllun Iaith Gymraeg i ddechrau ac yn barhaus mewn gweithdai a chyflwyniadau i bobl hŷn, mewn cylchlythyr a fydd yn cael ei anfon at sefydliadau ac unigolion, mewn unrhyw daflenni a chyhoeddiadau perthnasol a fydd yn cael eu cynhyrchu ar ôl dyddiad mabwysiadu'r Cynllun, ac ar ein gwefan. Bydd copïau o gyhoeddiadau ar gael oddi wrth y Comisiwn drwy wneud cais. Bydd asiantaethau allweddol a'r rhai a fydd yn cyflwyno gwasanaethau ar y cyd â'r Comisiwn neu ar ran y Comisiwn yn cael copïau o'r Cynllun.

d) Cytundebau neu drefniadau â thrydydd partïon

Bydd cytundebau neu drefniadau a fydd yn cael eu gwneud gyda thrydydd partïon ac sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn gyson â thelerau'r Cynllun hwn.

Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod contractwyr trydydd parti yn gweithredu unrhyw elfennau yn y Cynllun hwn sy'n gymwys wrth iddyn nhw ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ran y Comisiwn neu o dan oruchwyliaeth y Comisiwn.

Bydd gweithdrefnau'n cael eu datblygu i'r staff wrth ymdrin â thrydydd partïon i sicrhau bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu rhoi ar waith. Bydd gofynion perthnasol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn cael eu pennu mewn dogfennau tendro a chontractau. Bydd gwaith asiantau a chontractwyr wrth roi'r Cynllun ar waith yn cael ei fonitro.

dd) Monitro a chyfrifoldeb o ddydd i ddydd

Byddwn yn monitro'n cynnydd wrth wireddu'r Cynllun hwn o'i gymharu â'r targedau sydd wedi'u nodi yn y cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r Cynllun. Bydd ein gweithdrefnau presennol ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau yn cynnwys cyfeiriadau at y cynnydd wrth wireddu'r Cynllun hwn, fel y bo'n briodol.

Byddwn yn rhoi adroddiadau monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun.

Bydd y gwaith monitro'n ymdrin â'r canlynol:

- Blaengynllunio a chaffael: sicrhau y bydd polisïau, gweithdrefnau a chyhoeddiadau newydd yn gydnaws â chyflwyno gwasanaethau dwyieithog ar sail gyfartal.

- Trefnu gwasanaethau a'u cyflwyno: monitro sut y bydd y trefniadau a wneir i gyflwyno gwasanaethau'r Comisiwn yn Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith, a pha mor effeithiol ydyn nhw, gan fonitro pa mor dda yw gwaith y Comisiwn i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan bartïon eraill.
- Ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg: amserau ymateb ar gyfer gohebiaeth Gymraeg, ansawdd gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, trefniadau cyfarfodydd.
- Wyneb cyhoeddus y Comisiwn: rhoi delwedd gorfforaethol y Comisiwn ar waith, monitro cyhoeddiadau dwyieithog, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunyddiau eraill sy'n cael eu cyhoeddi.
- Staffio: monitro sut mae'r mesurau ynglŷn â staffio a hyfforddi yn y Cynllun hwn yn cael eu rhoi ar waith.
- Asiantau a chontractwyr: monitro sut mae asiantau a chontractwyr y Comisiwn yn darparu ac yn gweinyddu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â thelerau cytundebau a threfniadau ynglŷn â'r Gymraeg.
- Amserlen: monitro'r cyraeddiadau o'u cymharu â'r amserlen yn y Cynllun hwn.
- Cwynion: monitro mynychder a natur y cwynion ynghylch gwasanaeth Cymraeg y Comisiwn.

Y Comisiynydd fydd yn gyffredinol gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun a bydd yn sicrhau bod yr holl waith monitro yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus a'i fod yn cynnwys y rhai sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran y Comisiwn.

Cydlynedd y Cynllun Iaith Gymraeg fydd yn gyfrifol o ddydd i ddydd am fonitro ac adolygu'r Cynllun. Bydd fforwm staff yn cael ei sefydlu i fonitro'r Cynllun yn flynyddol. Bydd aelodau'r grŵp hwn yn dod o blith pob grŵp o staff yn y Comisiwn.

Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu o fewn pedair blynedd ar ôl iddo ddod i rym.

O dro i dro, gall fod angen inni adolygu'r Cynllun, neu gynnig diwygiadau iddo, oherwydd newidiadau yn ein swyddogaethau, neu yn yr amgylchiadau y byddwn yn cyflawni'n swyddogaethau odanyn nhw, neu am unrhyw reswm arall.

Fydd dim newid yn cael ei wneud yn y Cynllun heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

6. Awgrymiadau ar gyfer gwella

Mae'r Comisiwn yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella ar unrhyw ran o'r Cynllun Iaith Gymraeg. Dylai awgrymiadau gael eu hanfon at swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Bydd pob awgrym a ddaw i law yn cael ei gydnabod mewn ysgrifen.

7. Cwynion am y Cynllun Iaith Gymraeg

Bydd cwynion am y Cynllun yn cael eu trafod o dan broses cwynion corfforaethol y Comisiwn. Mae honno ar gael yma:

<http://www.olderpeoplewales.com/index.php?id=383&L=0>.

Dylai cwynion gael eu cyfeirio at Reolwr Cwynion y Comisiwn.

Bydd yr holl gyhoeddusrwydd ynghylch y Cynllun yn dweud at bwy y dylai cwynion am roi'r Cynllun ar waith gael eu cyfeirio.

Bydd y targed amser ar gyfer clirio cwynion am y gwasanaeth sydd wedi'i roi yn y Gymraeg yr un fath ag ar gyfer pob cynw

arall. Bydd pob cwyn a ddaw i law yn cael ei chydnabod mewn ysgrifen.

Gall cwynion am y Cynllun gael eu cyfeirio at Fwrdd yr Iaith Gymraeg os na fydd yr achwynydd yn fodlon ar ymateb i'w gŵyn sydd wedi'i roi gan y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn cydweithredu'n llawn â Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth iddo gynnal ymchwiliad o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

8. Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch perfformiad

Bydd crynodeb o sut gynnydd y mae'r Comisiwn yn ei wneud i roi'r Cynllun hwn ar waith yn cael ei gynnwys yn ei adroddiad blynyddol bob blwyddyn.

C. Manylion cysylltu'r person i gysylltu ag ef ynglŷn â'r Cynllun hwn

Cydlynnydd y Cynllun Iaith Gymraeg

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Adeiladau Cambrian

Sgwâr Mount Stuart

Caerdydd

CF10 5FL

08442 640670

gofyn@olderpeoplewales.com

D. Amserlen i roi'r cynllun ar waith a camau i'r timau

Adnoddau Dynol

Camau i'w cymryd	Dyddiad Targed	Cyfeirnod y Cynllun
Cynhyrchu canllawiau ar recriwtio siaradwyr Cymraeg	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, a) Recriwtio
Datblygu hysbysebion a geiriad dwyieithog, a gwybodaeth i'r pecyn recriwtio	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, a) Recriwtio
Recriwtio a chadw staff Cymraeg sydd â chymwysterau addas: derbynnydd, swyddog cymorth gweinyddol a Swyddog Gwybodaeth ac Ymholiadau	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, a) Recriwtio
Parhau i recriwtio staff Cymraeg	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, a) Recriwtio
Archwilio medrau Cymraeg y staff cyfredol	Mai 2010	5. Gweithredu a monitro, b) Archwiliad o fedrau Cymraeg y staff cyfredol
Cadw cofnod canolog o'r staff sy'n medru'r Gymraeg	Mai 2010	5. Gweithredu a monitro, b)

		Archwiliad o fedrau Cymraeg y staff cyfredol
Y rhaglen ymsefydlu i'r staff i gynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, c) Hyfforddiant Cymraeg
Datblygu hyfforddiant parhaus/hyfforddiant gloywi ar gyfer ymwybyddiaeth Gymraeg	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, c) Hyfforddiant Cymraeg
Ymchwilio i ddarparu hyfforddiant Cymraeg – opsiynau mewnol ac allanol – a threfnu ei fod ar gael i'r staff	Mai 2010	5. Gweithredu a monitro, c) Hyfforddiant Cymraeg

Cyfathrebu

Camau i'w cymryd	Dyddiad Targed	Cyfeirnod y Cynllun
Nodi cyfieithwyr Cymraeg rheolaidd	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, ch) Trefniadau gweinyddol
Cynhyrchu canllawiau ar drefnu/ cynnal cyfarfodydd dwyieithog (gan gyfeirio at ganllawiau Bwrdd yr Iaith ar gynnal cyfarfodydd cyhoeddus dwyieithog)	Mawrth 2010	3. Cyfathrebu â'r cyhoedd, c) Yn bersonol
Datblygu rhestr wirio o ddigwyddiadau er mwyn cynnwys ystyriaethau Cymraeg	Mawrth 2010	3. Cyfathrebu â'r cyhoedd, c) Yn bersonol
Deunyddiau swyddfa dwyieithog er enghraifft penawdau llythyrau, taflenni cyfarch, penawdau hysbysiadau i'r wasg, cardiau busnes ac arwyddion	Mawrth 2010	4. Wyneb cyhoeddus y Comisiwn, a) Delwedd gorfforaethol
Deunyddiau printiedig i fod yn ddwyieithog heblaw o dan amgylchiadau eithriadol	Mawrth 2010	4. Wyneb cyhoeddus y Comisiwn, c) Deunyddiau printiedig

Deunyddiau arddangos i fod yn ddwyieithog neu yn y ddwy iaith	Mawrth 2010	4. Wyneb cyhoeddus y Comisiwn, e) Deunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo
Gweithdrefnau i sicrhau bod dogfennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu llwytho i fyny i'r wefan yr un pryd	Mawrth 2010	4. Wyneb cyhoeddus y Comisiwn, dd) Gwefan
Cyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, ch) Trefniadau gweinyddol
Ystyried Canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddylunio gwefannau wrth barhau i ddatblygu'r wefan	Mawrth 2010	4. Wyneb cyhoeddus y Comisiwn, dd) Gwefan
Cynnwys y newyddion diweddaraf yn yr Adroddiad Blynyddol am berfformiad y Cynllun Iaith Gymraeg	Mai 2010	8. Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad
Datblygu'r brand – y Comisiwn fel sefydliad dwyieithog	Mawrth 2010	4. Wyneb cyhoeddus y Comisiwn, a) Delwedd gorfforaethol

Gwybodaeth ac Ymholiadau

Camau i'w cymryd	Dyddiad Targed	Cyfeirnod y Cynllun
Cynhyrchu canllawiau ar wasanaeth i gwsmeriaid gan nodi canllawiau a gweithdrefnau gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth a bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal	Ebrill 2010	2. Cyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

Gwybodaeth ac Adnoddau

Camau i'w cymryd	Dyddiad Targed	Cyfeirnod y Cynllun
Lawrlwytho Cysgliad a phrynu geiriaduron, gan gynnwys y Geiriadur Mawr, oddi ar Amazon	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, ch) Trefniadau gweinyddol
Ymchwilio i bosibilrwydd rhyngwyneb Cymraeg cymwysiadau Microsoft Office	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, ch) Trefniadau gweinyddol
Datblygu gweithdrefn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, i	Mawrth 2010	4. Wyneb cyhoeddus y

gynnwys gwirio y cydymffurfir â'r Cynllun		Comisiwn, ff) Partneriaethau
Sefydlu gweithgor i fonitro'r Cynllun	Mawrth 2010	5. Gweithredu a monitro, dd) Monitro a chyfrifoldeb o ddydd i ddydd
Defnyddio adroddiadau o'r System Rheoli Busnes	Mawrth 2010, ac yn barhaus	5. Gweithredu a monitro, dd) Monitro a chyfrifoldeb o ddydd i ddydd
Adolygu'r Cynllun bob pedair blynedd	Mawrth 2010, ac yn barhaus	5. Gweithredu a monitro, dd) Monitro a chyfrifoldeb o ddydd i ddydd

Cymorth Gweinyddol

Camau i'w cymryd	Dyddiad Targed	Cyfeirnod y Cynllun
Cadw cofnod o'r rhai sydd am ymdrin â'r Comisiwn yn Gymraeg	Mawrth 2010	3. Cyfathrebu â'r cyhoedd
Diweddarau llawlyfr y Dderbynfa	Mawrth 2010	3. Cyfathrebu â'r cyhoedd